**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Cyllid

23 Chwefror 2024

Annwyl Peredur,

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Rhentwyr (Diwygio)

Byddwch wedi gweld ein bod wedi anfon copi atoch o ohebiaeth ynghylch Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Rhentwyr (Diwygio).

Gwnaethom benderfynu gwneud hynny ar ôl i ni drafod y Memorandwm yn ein cyfarfod ddydd Llun 19 Chwefror. Gwnaethom nodi bod y Memorandwm yn gwneud y sylw a ganlyn:

> *"Ni nodwyd unrhyw oblygiadau ariannol hyd yma pe bai'r darpariaethau hyn yn gymwys yng Nghymru."*

O gofio bod y Bil Rhentwyr (Diwygio) yn ceisio diwygio dwy Ddeddf gan y Senedd (*Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019* a *Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016*), roeddem yn meddwl ei bod yn briodol tynnu eich sylw at y mater hwn.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd